Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

# YMATEB BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG I: ADRODDIAD THEMATIG IMSOP I FORBIDRWYDD A MARWOLAETHAU YMYSG MAMAU

*Y Rhaglen Adolygu Clinigol*

***25 Ionawr 2021***

*Ysgrifennwyd mewn cydweithrediad â: Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a'r Tîm Gwella Mamolaeth*



## Rhagair

Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o ymatebion ar ffurf adroddiad i'w cyhoeddi dros y flwyddyn i ddod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Nod yr adroddiad hwn yw cyhoeddi ymateb y Bwrdd Iechyd i ganfyddiadau Adolygiad Clinigol y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP).

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar y gofal mamolaeth a ddarparwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl rhwng 1 2016 a 30 Medi 2018. Mae'r canfyddiadau o'r adolygiad hwn yn ymwneud â'r cyfnodau hynny o ofal oedd yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn y categori "morbidrwydd a marwolaethau ymysg mamau". Mae'r categori hwn wedi adolygu'r gofal a roddwyd mewn 28 cyfnod unigol o ofal a dderbyniodd mamau a'u babanod, lle mae'n bosibl yr oedd angen i'r menywod dderbyn triniaeth frys wrth roi genedigaeth na chynlluniwyd ymlaen llaw, neu lle'r oedd angen derbyn y menywod i'r Uned Gofal Dwys.

Mae canfyddiadau'r adolygiadau wedi cefnogi'r gwaith sydd ar y gweill o hyd ers i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd. Tynnodd sylw adroddiad y ddau Goleg Brenhinol ym mis Ebrill 2019 at bryderon sylweddol yn y gwasanaeth mamolaeth, ac rydym wedi bod yn mynd i'r afael â'r rhain ers hynny.

Mae ein Bwrdd Iechyd wedi derbyn canfyddiadau pob adolygiad o bob achos clinigol unigol, ac mae'n cydnabod y gwersi i'w dysgu sydd wedi eu nodi. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o'r safon uchaf, a bod y menywod a'r teuluoedd dan ein gofal yn cael y profiad gorau posibl.

Rydym yn cydnabod pa mor anodd y gall fod i deuluoedd ddwyn y profiad hwn i gof fel hyn, ond rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn tawelu meddwl ein cymunedau ein bod wedi dysgu o ddigwyddiadau yn y gorffennol. Rydym yn ymrwymedig i fod yn onest ac yn agored am yr hyn aeth o'i le, ac am sut mae'r gwersi i'w dysgu wedi bod yn sail i waith gwella ystyrlon.

Fe wnaeth y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth ddau argymhelliad penodol yn eu hadolygiad thematig:

***Argymhelliad 1: Dylai'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi ymateb ffurfiol i'r gwersi i'w dysgu sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil cyfnod cyntaf y rhaglen Adolygu Clinigol (y categori mamau), i'w gyhoeddi ar y cyd ag adroddiad thematig y Panel.***

Cytunodd ein Bwrdd Iechyd fod yn hyn yn hynod o bwysig i'n teuluoedd ac i'r cyhoedd yn ehangach fel na fydd unrhyw oedi wrth roi'r atebion iddynt y maent yn eu haeddu.

***Argymhelliad 2: Dylid gofyn i'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd ehangach i ddysgu gwersi yn sgil y Rhaglen Adolygu Clinigol wedi eu cydnabod, ac yn cael eu rhannu ledled Cymru.***

Mae ein Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i rannu'r canfyddiadau hyn â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru, fel y gall Byrddau Iechyd eraill werthuso eu gwasanaethau hwy, a gwneud unrhyw welliannau ar y cyfle cyntaf posibl. Mae perthynas broffesiynol dda a sefydledig gennym ar hyn o bryd â'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol, Penaethiaid Grwpiau Ymgynghorol Bydwreigiaeth a Llywodraeth Cymru, ynghyd â nifer o berthnasau clinigol cryf â gwasanaethau mamolaeth eraill o'n cwmpas.

Mae'n wirioneddol flin gennym am yr hyn a ddigwyddodd yn ein gwasanaethau mamolaeth, a hoffwn ymddiheuro'n ddiffuant i bob un teulu a gafodd ei effeithio gan y gofal a ddarparwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Ni allwn newid y profiadau a ddioddefodd y menywod a'r teuluoedd sydd wrth galon yr adroddiad hwn, ond fe fyddwn yn sicrhau bod y profiadau hyn yn sail i'n hymrwymiad i ddatblygu a chynnal gwasanaeth mamolaeth y gall ein cymuned a'n staff fod yn falch ohono.

Anghofiwn ni fyth yr hyn a ddywedodd ein teuluoedd wrthym ni am eu profiadau, a byddwn yn parhau i wrando a dysgu a gweithio ochr yn ochr â'n cymuned i sicrhau na fydd neb byth eto yn cael y profiadau hyn.

**Marcus Longley**

Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



**Marcus Longley**

Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



**Paul Mears**

Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Tabl Cynnwys

Rhagair

1. Am yr Adroddiad hwn | t8

*Ffeithlun: Crynodeb o Ganfyddiadau'r Adolygiad Clinigol a Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd

2. Cyflwyniad: Gweithio gyda Menywod a'u Teuluoedd | t9

3. Cefnogi ein Teuluoedd |t11

4. Sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn mynd i'r afael â'r methiannau a nodwyd yn adroddiad y Colegau Brenhinol | t12
   4.1 Gwaith y Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
   4.2 Y Rhaglen Adolygu Clinigol
   4.3 Sut mae canfyddiadau'r Adolygiad Clinigol yn cael eu rheoli
   4.4 Cefnogi staff pan ganfyddir methiannau

5. Dysgu o Ganfyddiadau Adolygiad Clinigol IMSOP | t16
   5.1 Deall yr hyn sydd ei angen ar fenywod
   5.2 Mynediad at wybodaeth berthnasol a phrydlon
   5.3 Methiant i fonitro cynnydd ac i uwchgyfeirio gofal
   5.4 Cyfathrebu

6. Gwelliannau sydd eisoes wedi eu gwneud gan y Bwrdd Iechyd hyd yma | t27
   6.1 Y gwelliannau sydd ar y gweill ar hyn o bryd

7. Diogelu cyfrinachedd ein teuluoedd | t30
   7.1 Adborth gan deuluoedd ac ymgysylltiad a chymorth parhaus

8. Y Camau Nesaf | t31

9. Casgliad | t32

10. Atodiadau |t33

# Categori Morbidrwydd a Marwolaeth ymysg Mamau

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

## Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol IMSOP

- Adolygwyd 28 o gyfnodau gofal
- Nodwyd o leiaf un ffactor addasadwy mewn 27 o'r 28 o achosion
- Roedd ffactor addasadwy gan 19 o achosion (68%)
- Ni nodwyd unrhyw ffactorau addasadwy mewn un achos
- Nodwyd cyfleoedd ehangach i ddysgu mewn dau achos

***Dywedodd menywod a'u teuluoedd...***
*eu bod nhw am weld ffeithlun o ystadegau mamolaeth......*

**...gwnaethom ni...**



Y ffeithlun cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020. Rydyn ni'n ôl-ddyddio'r rhain at ddechrau 2020 gan fod menywod wedi gofyn i ni wneud hyn er eu cofnodion nhw.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Canfyddiadau a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd o achosion unigol yn yr Adolygiad Clinigol:** | **233** |
| **Camau gweithredu agored sy'n deillio o'r canfyddiadau:** | **134** (mae 27 o'r rhain yn ailadrodd: yr un camau gweithredu ydynt ond wedi eu crybwyll mewn sawl achos unigol) |
| **Camau gweithredu agored** | **107** |
| **Camau gweithredu a gyflawnwyd** | **99** |

*Mae'r holl gamau gweithredu i'w cwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2021

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni 50 allan o 70 o argymhellion Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) a'r Coleg Bydwreigiaeth Brenhinol (RCM)
- Mae 24 allan o 70 o argymhellion RCOG ac RCM yn cyd-fynd â'r rhaglen adolygu clinigol
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau 17 o'r 24 o argymhellion hyn
- Mae saith argymhelliad yn dal i fod ar y gweill
  - Rheoli ac adrodd digwyddiadau difrifol
  - Rheoli pryderon yn unol â Gweithio i Wella
  - Ymgysylltu â menywod a'u teuluoedd
  - Datblygu'r gweithlu parthed hyfforddiant, cymorth clinigol, gwerthoedd ac ymddygiadau



"Byddwn ni'n sicrhau na fyddwn ni byth yn anghofio am deuluoedd yn yr adolygiad, a'u profiadau fydd y gwaddol sy'n creu sylfaen gadarn at y dyfodol"

| Beth ddywedodd IMSOP… | Beth wnaethom ni… Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd | Camau Nesaf y Bwrdd Iechyd |
|---|---|---|
| 1. Deall yr hyn sydd ei angen ar fenywod | • Digwyddiadau ymgysylltu ym mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020 â chymunedau yn Llantrisant, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr ar ôl cyhoeddi adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.<br><br>• Sefydlu fforwm *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I*, i gynorthwyo prosiectau gwella ac annog pobl i gymryd rhan ynddynt.<br><br>• Sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi ennill eu plwyf<br><br>• Teithiau rhithwir o bob safle mamolaeth ar gael<br><br>• Ystyried amseroedd aros, a phartneriaid yn aros dros nos ar wardiau ôl-enedigaeth, er mwyn rhoi cymorth emosiynol ac ymarferol i fenywod a fydd yn annog bondio.<br><br>• Cymorth ymarferol gan Nyrsys Meithrin a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (rhagor o staff ar wardiau ôl-enedigaeth)<br><br>• After Thoughts, sef clinig i wrando ar famau ac ateb unrhyw gwestiynau sydd heb eu hateb, ac egluro lle gellir cael cymorth o ffynonellau eraill os oes angen. | • Gwireddu Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan o ofal sy'n rhoi'r teulu yn gyntaf.<br><br>• Modelau o ofal yn cael eu harchwilio fel bod modd cynnig parhad o ran gofal i deuluoedd gyda chyflyrau iechyd cymhleth. |

| Beth ddywedodd IMSOP… | Beth wnaethom ni… Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd | Camau Nesaf y Bwrdd Iechyd |
|---|---|---|
| 2. Mynediad at wybodaeth berthnasol a phrydlon | • Taflenni gwybodaeth sy'n cael eu hargymell yn genedlaethol bellach yn cael eu darparu ynghyd â thaflenni'r Bwrdd Iechyd sy'n cael eu creu ar y cyd gyda grŵp defnyddwyr *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I*.<br><br>• Clinigau gyda Bydwraig Ymgynghorol i gynorthwyo menywod a sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth i allu gwneud penderfyniadau. | • Cynnydd yn cael ei wneud wrth sefydlu sesiynau rhannu gwybodaeth 6-8 wythnos, i fenywod sydd wedi cael genedigaeth gymhleth<br><br>• Ystyried clinigau cwnsela cyn beichiogrwydd |
| 3. • Methiant i fonitro cynnydd ac i uwchgyfeirio gofal | • Diweddaru'r polisi uwchgyfeirio<br><br>• 60 awr o bresenoldeb gan ymgynghorydd yn y gwasanaeth<br><br>• Goruchwylio agosach ar gyfer monitro twf babanod yn ystod beichiogrwydd drwy raglenni hyfforddi GAP a GROW.<br><br>• Diweddar canllawiau a pholisïau | • Archwiliadau parhaus am effeithiolrwydd y broses o drosglwyddo gofal |
| 4. Cyfathrebu gwael | • Penderfyniadau ar y cyd rhwng Obstetryddion, Anaesthetegyddion a thimau meddygol ar gyfer menywod sy'n cael gofal a thriniaeth y tu hwn i'r adran mamolaeth<br><br>• Hyfforddiant *PROMPT* gorfodol blynyddol sydd wedi ei gydnabod yn genedlaethol i bob bydwraig a meddyg (gan gynnwys Anaesthetegyddion) er mwyn gwella penderfyniadau clinigol a gwaith tîm pan fydd argyfwng. | • Canllaw gofal critigol ar gyfer mamolaeth ar y gweill, gan gynnwys siart dibyniaeth uchel a hyfforddiant i fydwragedd |




Fel Bydwraig Ymgynghorol Dros Dro CTM, rydw i'n cynnig clinigau ac apwyntiadau yn hyblyg i fenywod ledled ardal y Bwrdd Iechyd. Fy rôl i yn bennaf yw cynnig gwybodaeth gefnogol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal ag opsiynau o ran mannau a dulliau geni.
Er bod y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig yn uniongyrchol i fenywod, fy rôl i yw rhoi cymorth i fydwragedd hefyd o ran cynnig opsiynau a chyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eu practis clinigol eu hunain.
Fy athroniaeth i yw rhoi grym a chymorth i bob menyw er mwyn iddynt ystyried eu hopsiynau, hybu genedigaeth actif ddiogel ym mha bynnag leoliad mae menyw'n dewis rhoi geni ynddo, eirioli a rhoi hyder i fenywod, fel eich bod chi'n teimlo'n hyderus ac yn cael eich ysbrydoli yn ystod eich taith.

## 1. Am yr Adroddiad hwn

Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) yn eu cyhoeddi i ymateb i adroddiadau thematig y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth (IMSOP) ynghylch eu canfyddiadau yn sgil adolygiadau clinigol. Mae'r 'Ymateb ar ffurf Adroddiad' hwn yn canolbwyntio ar ofal mamau[1] a oedd angen triniaeth frys wrth roi genedigaeth nad oedd wedi ei chynllunio ymlaen llaw, gan gynnwys y mamau hynny yr oedd angen eu derbyn i'r Uned Gofal Dwys.

Mae'r Ymateb ar ffurf Adroddiad yn manylu ar sut y mae BIP CTM yn ymateb i'r themâu a nodir yn adroddiad thematig IMSOP ynghylch y categori "morbidrwydd ymysg mamau", a hynny wrth roi trosolwg o sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r gwaith o wella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol eisoes yng ngoleuni adroddiad y ddau Goleg Brenhinol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019.

Mae pedwar prif faes:

1. Sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn mynd i'r afael â'r methiannau a nodwyd yn adroddiad y ddau Goleg Brenhinol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019 (Adran 5)
2. Y gwelliannau y mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi eu gwneud hyd yma (Adran 5)
3. Y gwelliannau sydd ar y gweill ar hyn o bryd (Adran 6)
4. Ymateb y Bwrdd Iechyd i'r themâu a nodir yn adolygiad thematig IMSOP ym mis Ionawr 2021, sef "Morbidrwydd a Marwolaethau ymysg Mamau" (Adran 5).

[1] *Mewn rhai achosion, cafodd gofal y babi ei adolygu hefyd. Fodd bynnag, bydd unrhyw wersi i'w dysgu mewn perthynas â gofal babanod yn cael ei adolygu mewn adroddiadau thematig eraill.*

## 2. Cyflwyniad

### Gweithio gyda Menywod a'u Teuluoedd

Ers cyhoeddi adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ym mis Ebrill 2019, mae'r Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu gweithio'n agos gyda theuluoedd a chymunedau, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu anghenion a gwerthoedd y rhai y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu gwasanaethu.





Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ledled Merthyr a Chynon, Rhondda Taf Elái a Phen-y-bont ar Ogwr, a ddaeth â menywod, teuluoedd a chymunedau ynghyd gyda'r gwasanaeth mamolaeth. Trwy gydol y digwyddiadau ymgysylltu, gwrandawodd y gwasanaeth ar deuluoedd mewn modd nad oedd y gwasanaeth wedi gwneud cyn hynny.

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg:

- Gwasanaethau bwydo babanod;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol
- Deall geni a gofal;
- Cynnwys partneriaid a theuluoedd.

Cafodd cynlluniau eu datblygu i ymateb i'r themâu hyn, ac mae gwaith ar y cyd â theuluoedd yn parhau er mwyn sicrhau bod teuluoedd wrth wraidd datblygiadau yn y gwasanaeth.

Mae Cylch Ymgysylltu CTM (i'w weld yn Saesneg isod) yn dangos y cylch parhaus o waith ymgysylltu gyda theuluoedd, ac mae'n dangos sut mae sawl methodoleg o fathau gwahanol wedi eu defnyddio i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ac i gasglu eu barnau. Mae casglu'r adborth hwn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i nodi blaenoriaethau defnyddwyr gwasanaethau, ac mae hyn yn ei dro yn cynorthwyo'r gwasanaeth i lywio'r gwaith o datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd.




Enghraifft o hyn yw Grŵp *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I*, sy'n cynorthwyo'r gwaith o wella gwasanaethau mamolaeth. Mae'r grŵp hwn yn disodli'r '*Maternity Services Liaison Committee'.* Mae'r grŵp yn cynnwys aelodau lleyg sydd wedi derbyn gofal yn BIP CTM yn y gorffennol, ac sy'n ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau mamolaeth er mwyn cynllunio, monitro a gwella gwasanaethau.

Dros y 12 mis diwethaf, mae grŵp *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I* wedi datblygu ac mae'r nifer o aelodau wedi tyfu. Mae hefyd wedi ehangu sgôp ei weithgareddau ledled y gwasanaeth. Mae natur y cyfrannu a'r cyd-gynhyrchu hyn yn esblygu trwy'r amser. Trwy grŵp *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I,* mae'r gwasanaeth wedi gwneud ymrwymiad cryf i feithrin a chynnal perthnasau ystyrlon â defnyddwyr gwasanaeth; mae'n cynnig dull agored a thryloyw o gyfathrebu ac mae'n rhoi barnau ac anghenion menywod a'u teuluoedd wrth wraidd pob penderfyniad, newid a gwelliant.

## 3.0 Cefnogi Teuluoedd

Er bod gwaith ymgysylltu a chasglu adborth yn ddiweddar wedi ennyn ymateb eithriadol o gadarnhaol, nid yw hyn yn tynnu dim oddi wrth effaith y methiannau, nid yn unig ar y menywod a'u teuluoedd yn yr adolygiad, ond hefyd ar gymunedau'n ehangach. Gall hyn gynnwys y rhai sydd wedi defnyddio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn fwy diweddar, neu'r rhai y mae disgwyl iddynt roi genedigaeth yn y misoedd i ddod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i gefnogi menywod a theuluoedd ar yr adeg anodd hon, ac rydym yn ymddiheuro'n ddiffuant unwaith eto i bob un fenyw a'i theulu a dderbyniodd ofal a oedd islaw'r safon ddisgwyliedig. Rydym ni'n ymrwymedig i fod yn agored ac yn onest am y gwersi i'w dysgu sydd wedi eu nodi, ac i weithio gyda'n teuluoedd, hen a newydd, mewn ymgais i ddatblygu gwasanaethau mamolaeth CTM.

Ers i'r rhaglen Adolygu Clinigol ddechrau ar ei gwaith ym mis Tachwedd 2019, gweithiodd y Bwrdd Iechyd yn agos gydag asiantaeth cwnsela allanol er mwyn cynorthwyo'r teuluoedd yn yr adolygiad clinigol sydd wedi gofyn am gymorth ychwanegol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod ar gael i fenywod, eu partneriaid ac aelodau ehangach o'u teulu, gan ein bod yn cydnabod effaith profiad gwael ar y teulu cyfan.

Mae llinell gyswllt arbennig gan y Bwrdd Iechyd y gall teuluoedd ei defnyddio i godi ymholiadau neu bryderon am y broses adolygu a'i chanfyddiadau, ac mae taflenni gwybodaeth wedi eu llunio i ateb cwestiynau cyffredin ac i helpu pobl i ddod o hyd i gymorth pellach (gweler Atodiad 3, 4 a 5). Gall menywod a'u teuluoedd gysylltu â thîm y Gwasanaeth trwy ffonio **01685 728741,** ac mae ar gael rhwng 9-5pm. Mae modd gadael neges lais hefyd, a bydd y tîm yn ymdrechu i ymateb i'ch galwad cyn pen dau ddiwrnod gwaith.

Mae rhoi genedigaeth yn ystod y pandemig sydd ohoni yn brofiad gwahanol a heriol i fenywod, eu partneriaid a'u teulu, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol y gall canfyddiadau adolygiad clinigol IMSOP beri rhagor o bryderon. Yn yr achosion hyn, anogir menywod a'u teuluoedd i geisio cymorth gan eu bydwraig neu i gysylltu ag aelod o'r tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, a fydd yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau neu egluro pa gymorth ychwanegol sydd ar gael os oes angen.

## 4.0 Sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn mynd i'r afael â'r methiannau a nodwyd yn adroddiad y ddau Goleg Brenhinol o 2019

### 4.1 Gwaith y Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

Tynnodd adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd (y ddau Goleg Brenhinol), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, sylw at nifer o fethiannau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (fel yr oedd gynt cyn newid ei enw i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg). Yn sgil cyhoeddi'r adroddiad hwn, sefydlodd y Bwrdd Iechyd y Tîm Gwella Mamolaeth i oruchwylio'r rhaglen o welliannau a'r gwaith yr oedd angen ei wneud yn y Bwrdd Iechyd i gefnogi Rhaglen Adolygu Clinigol IMSOP.

Mae'r rhaglen hon wedi ehangu yn ddiweddar i gynnwys gwaith gwella mewn gwasanaethau newyddenedigol hefyd, sy'n cael ei fonitro gan broses debyg. Yr enw felly ar y Tîm Gwella Mamolaeth bellach yw'r Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.

Uwch-swyddogion Cyfrifol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y rhaglen hon yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio a Diogelwch Cleifion mewn perthynas â gwaith mamolaeth, a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol mewn perthynas â gwaith newyddenedigol.

Mae'r Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn gyfrifol am sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud wrth weithredu 70 argymhelliad y Colegau Brenhinol, ac am weithio gyda chlinigwyr i wella arferion gweithio a safonau. Caiff yr argymhellion hyn eu rheoli trwy'r Cynllun Gwella Mamolaeth a Newyddenedigol, a'u monitro trwy dri phrosiect gwaith:

1. Gofal diogel ac effeithiol
2. Ansawdd Profiadau Menywod a'u Teuluoedd
3. Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae'r prosiectau gwaith hyn yn monitro ac yn mesur y gwelliannau yn y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, ac maent yn cefnogi'r broses o ddarparu tystiolaeth er mwyn i IMSOP allu asesu cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu.

Mae'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn cynnwys cerrig milltir a thargedau clir i reoli'r argymhellion ac, yn fwyaf diweddar, y gwelliannau ychwanegol a diwygiadau a nodwyd gan wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.

Mae pob cynllun yn cael ei fonitro gan Fwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol y Bwrdd Iechyd a chan Banel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP) y penodir ei aelodau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn adolygu cynnydd yn ei Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd Rheoli.

Mae prif themâu cyffredinol y cynllun i'w gweld isod yn y blwch glas:

- Trafod â Menywod a'u Teuluoedd a'u Cynnwys
- Hyfforddi a datblygu staff
- Diwylliant y gweithle a chyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol
- Rheoli digwyddiadau difrifol a phryderon
- Gwerthoedd ac Ymddygiadau
- Archwilio clinigol ac Effeithiolrwydd
- Arweinyddiaeth a Llywodraethiant
- Y gweithlu Bydwreigiaeth ac Obstetrig ac amserlenni sifftiau staff

Mae cynlluniau wedi eu llunio i gyd-fynd â'r themâu hyn, ac mae cynlluniau hefyd wedi eu llunio ar y cyd â phartneriaid fel y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol sy'n datblygu llwybrau gofal safonedig o ansawdd uchel a phrosesau adolygu trwy wrando ar fenywod a'u teuluoedd ledled Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio tuag at ddarparu gofal sy'n adlewyrchu Gweledigaeth Pum Mlynedd Cymru Gyfan ar gyfer Mamolaeth.




Mae'r polisi hwn i Gymru gyfan yn disgrifio sut y bydd gwasanaethau mamolaeth yn datblygu ac yn gwella rhwng 2019-2024 i ddiwallu anghenion pob menyw a'i theulu yng Nghymru.

Bydd gofal o safon aur yn cael ei ddarparu trwy ddilyn pum egwyddor gofal mamolaeth:

1. Gofal sy'n rhoi'r teulu yn gyntaf
2. Gofal diogel ac effeithiol
3. Dilyniant gofal
4. Timau amlbroffesiwn medrus
5. Gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd

Mae'r egwyddorion hyn yn dylanwadu ar bob un o gynlluniau mamolaeth y Bwrdd Iechyd, ac mae gwireddu'r weledigaeth yn edefyn a red trwy gydol y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Mae hyn yn sicrhau bod gwaith gwella lleol a gwaith gwella cenedlaethol ill dau yn mynd i'r un cyfeiriad, a bod modd i bob un teulu yn ardal CTM ddisgwyl gofal da a di-dor. Mae modd darllen *Y Weledigaeth* (yn llawn) yma.

## 4.2 Y Rhaglen Adolygu Clinigol

Mae'r Rhaglen Adolygu Clinigol dan gyfarwyddyd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP). Mae'r adolygiad o'r achosion a nodwyd yn asesu safon y gofal a ddarparodd y Bwrdd Iechyd, er mwyn canfod a oedd ansawdd a diogelwch y gofal ill dau yn ddigonol neu islaw'r safon ddisgwyliedig.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n agos gyda'r Panel Annibynnol ers dechrau'r broses o Adolygu Clinigol ym mis Tachwedd 2019. Mae'r cydweithio agos hwn yn sicrhau bod gwybodaeth sydd mor fanwl â phosibl wedi ei rhoi i'r Panel Annibynnol er mwyn cefnogi'r gwaith o adolygu achosion mewn modd trylwyr.

Unwaith y bydd adolygiad o achos wedi ei gwblhau, bydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn adborth sy'n manylu ar y canfyddiadau ac sy'n nodi'r arwyddocâd sydd wedi ei bennu i'r achos gan dîm yr adolygiad (sef arwyddocâd 'mawr', 'bach' neu 'dysgu ehangach' [*'major', 'minor', 'wider learning'*], yn dibynnu ar eu barn hwy ynghylch a oedd y gofal islaw'r safon ddisgwyliedig ac a allai gofal gwahanol fod wedi newid y canlyniad ai peidio.

| Ffactor Addasadwy IMSOP | Gradd Arwyddocâd IMSOP |
|---|---|
| **Mawr** | *Roedd y ffactor wedi cyfrannu'n fawr at y farwolaeth. Pe bai'r sefyllfa wedi cael ei rheoli'n wahanol, byddai'n rhesymol tybio y byddai'r canlyniad yn wahanol.* |
| **Bach** | *Roedd y ffactor yn ffactor perthnasol a oedd wedi cyfrannu, a phe byddai'r sefyllfa wedi ei rheoli'n wahanol, mae'n bosibl y byddai hyn wedi gwneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai wedi newid y canlyniad cyffredinol.* |
| **Dysgu Ehangach** | *Er bod modd dysgu gwersi, nid oedd hyn wedi effeithio ar y canlyniad yn y pen draw* |

## 4.3 Sut mae canfyddiadau'r Adolygiad Clinigol yn cael eu rheoli

Mae canfyddiadau'r Adolygiad yn cael eu hadolygu yn y lle cyntaf gan y Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, sy'n casglu ynghyd y gwersi i'w dysgu a'r canfyddiadau ac yn eu rhoi mewn ffurflen adborth. Wedyn, bydd yr achos yn cael ei drafod mewn cyfarfod amlddisgyblaethol bob pythefnos, sy'n cynnwys Obstetryddion Ymgynghorol, Anaesthetegyddion, Bydwragedd, Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth, Goruchwylwyr Clinigol Bydwragedd a Phaediatregwyr. Bydd pob achos wedyn yn cael ei rannu â thîm amlddisgyblaethol ehangach, sef ein Cabinet Clinigol (cydweithwyr mewn rolau a meysydd arbenigol tebyg i'r uchod) er mwyn pleidleisio ar unrhyw gamau gweithredu. Bydd camau gweithredu'n cael eu cyflawni gan bob aelod o'r Tîm Amlddisgyblaethol a phob aelod o staff sy'n gweithio yn y meysydd clinigol.

Mae pob cam gweithredu'n cael ei gofnodi ar y traciwr adolygiadau clinigol. Mae cynnydd wrth gyflawni'r camau gweithredu hyn yn cael ei fonitro gan y Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.

Mae'r camau gweithredu'n cael eu monitro hefyd trwy'r cyfarfodydd prosiectau gwaith cyn adrodd ynghylch cynnydd, ac adrodd bod camau gweithredu wedi eu cwblhau ai peidio, wrth y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Mae'r themâu cyffredinol hefyd i'w gweld ar Brif Gynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, fel bod modd goruchwylio cynnydd a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud mewn modd amserol (gweler Atodiad 1 ar gyfer map proses y Bwrdd Iechyd).

## 4.4 Cefnogi staff pan ganfyddir methiannau

Mae pecyn cymorth a gwybodaeth wedi ei ddarparu er mwyn sicrhau bod staff yn deall y prosesau ac yn gwybod sut i ddod o hyd i ragor o wybodaeth neu gymorth.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda staff sydd wedi bod yn rhan o adolygiadau hanesyddol. Mae prosesau cadarn wedi eu datblygu gyda chydweithwyr o'r Adran Gweithlu er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau a llwybrau uwch-gyfeirio yn amserol, yn sensitif ac yn gynhwysfawr ar gyfer y staff hynny sy'n rhan o achosion lle canfuwyd ffactorau addasadwy mawr.

Mae'n bwysig pwysleisio bod y Bwrdd Iechyd o'r un farn â Llywodraeth Cymru ac IMSOP na ddylai ethos y broses hon fod yn un cosbol; yn hytrach, fe ddylai fod ethos o ddysgu a gwella. Mae gwybodaeth yn ymwneud â staff yn gyfrinachol, ac mae pob aelod o staff yn ddienw trwy gydol y broses.

Yn yr achosion hynny lle mae pryderon am gymhwysedd neu ymddygiad proffesiynol unigolyn, bydd hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd, a hynny i'r unigolyn ac i'r tîm ehangach lle bo angen.

Mewn amgylchiadau lle mae pryderon proffesiynol difrifol, bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi ei brosesau ei hun ar waith, gan gynnwys atgyfeirio achosion at gyrff proffesiynol os bydd angen.

## 5.0 Dysgu o Ganfyddiadau Adolygiad Clinigol IMSOP

Seiliwyd yr asesiad o bob cyfnod gofal ar adolygiad systematig o 12 maes gwahanol:

1. Y fenyw a'i theulu
2. Gofal cyn beichiogrwydd
3. Asesu/Y pwynt mynediad i ofal
4. Diagnosis/cydnabod risg uchel
5. Atgyfeirio cleifion at arbenigwr
6. Triniaeth
7. Arweinyddiaeth glinigol
8. Addysg, hyfforddiant a gwybodaeth
9. Dogfennau
10. Rhyddhau neu drosglwyddo cleifion o ofal
11. Cyfathrebu
12. Polisïau a Gweithdrefnau

Cafodd hanesion menywod eu hystyried hefyd lle'r oeddent ar gael.

O'r 28 achos a adolygwyd, roedd o leiaf un ffactor addasadwy mewn 27 ohonynt. O'r rhain, roedd 19 (69%) wedi datgelu ffactor addasadwy mawr (hynny yw, pe bai'r sefyllfa wedi ei rheoli'n wahanol, yna gellid tybio'n rhesymol y byddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol hefyd). Mewn 12 adolygiad (43%), roedd mwy nag un ffactor addasadwy mawr.

Trwy gydol y 28 achos, canfuwyd mwy na 200 o ffactorau addasadwy yn y 10 maes canlynol:

- Gofal cyn beichiogrwydd neu ofal cyn cenhedlu
- Asesiadau neu ofal wrth y pwynt mynediad
- Rhoi diagnosis o statws risg uchel
- Atgyfeirio cleifion at arbenigwyr
- Triniaeth
- Arweinyddiaeth glinigol
- Addysg, Gwybodaeth a Hyfforddiant
- Dogfennaeth
- Rhyddhau cleifion neu drosglwyddo cleifion o ofal
- Cyfathrebu

Fel y disgrifiwyd eisoes, aed i'r afael â llawer o'r canfyddiadau o fewn argymhellion a oedd eisoes wedi eu cyflawni, ac roedd cynlluniau eisoes ar waith ar gyfer canfyddiadau eraill yn y saith argymhelliad arall. Fodd bynnag, ac mae'n bwysig nodi hyn, roedd y broses o adolygu'r canfyddiadau gyda thimau clinigol wedi ei gwneud yn bosibl i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r gwelliannau hyn a'u hystyried o'r newydd. Arweiniodd hyn at gamau gweithredu newydd a chynlluniau mwy uchelgeisiol. Mae hyn i'w weld yn y golofn Camau Nesaf yn Adran 5. Mae'r nifer o gamau gweithredu unigoledig sydd ar agor neu sydd wedi cau yn y traciwr adolygiadau clinigol wedi eu rhestru yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y nifer o ganfyddiadau yn sgil adolygiadau clinigol o achosion unigol:** | **233** |
| **Camau Gweithredu yn sgil y canfyddiadau sydd ar agor o hyd:** | **134** (mae 27 o'r rhain yn gamau gweithredu dyblyg: hynny yw, yr un camau gweithredu ydynt, ond maent wedi eu crybwyll mewn nifer o achosion unigol) |
| **Cyfanswm y camau gweithredu agored** | **107** |
| **Cyfanswm y camau gweithredu sydd wedi eu cau** | **99** |

Mae'n bwysig nodi nad yw cam gweithredu 'tebyg at ei debyg' bob tro yn dod yn sgil ffactor addasadwy. Mae amlinelliad bras o'r camau gweithredu hyn i'w gweld yn Adran 5. Mae'n bwysig nodi bod y gwelliannau hyn bellach yn cael eu harwain gan staff clinigol CTM, ac nid yw effaith amlwg pandemig COVID-19 wedi lleihau dim ar eu hymrwymiad na'u brwdfrydedd i wneud hynny. Trwy eu brwdfrydedd hwy, mae mwy na hanner y camau gweithredu wedi eu cyflawni eisoes. Mae amserlenni'n amrywio, ond y disgwyl yw y bydd pob cam gweithredu yn y categori hwn wedi ei gyflawni erbyn Gorffennaf 2021.

### 5.1 Deall beth sydd ei angen ar fenywod

| Roedd ar fenywod eisiau cymorth emosiynol ac ymarferol gan deulu a ffrindiau |
|---|
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yma:** |
| Digwyddiadau ymgysylltu ym mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020 â chymunedau yn Llantrisant, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr ar ôl cyhoeddi adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. |
| Sefydlu fforwm *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I*, i gynorthwyo prosiectau gwella ac annog pobl i gymryd rhan ynddynt. |
| Mae *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I* yn gweithio gyda grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, er mwyn annog y grwpiau hyn i ymwneud â'r gwasanaeth yn y dyfodol. |
| Y sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol wedi ennill eu plwyf, ac ymhlith y cynnwys arnyn nhw y mae teithiau rhithwir o gwmpas y gwasanaethau mamolaeth ar bob safle. |
| Taflenni gwybodaeth i bartneriaid er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu. |
| Mae tudalen arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd o'r enw '*Bump Talk*', lle gall menywod roi adborth am ystod o wasanaethau. |
| Dosbarthiadau i rieni sydd ar-lein ar hyn o bryd, ac sy'n cael eu cynnig i bob aelod o'r teulu. |
| Adborth gan gleifion yn cael ei roi i staff yn rheolaidd mewn cyfarfodydd adrannol a sesiynau adlewyrchu. Arddangos adborth gan gleifion ar y wardiau.<br>Holiaduron gan PALS[2] yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ar wardiau ôl-enedigaeth, er mwyn asesu'n rheolaidd ofal sy'n canolbwyntio ar y fenyw |
| **Camau Nesaf** |
| Ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu PREM[3] i gofnodi data am brofiadau menywod trwy gydol eu beichiogrwydd. |
| Gwaith yn mynd yn ei flaen o hyd gyda'r fforwm i wireddu Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan o ofal sy'n rhoi'r teulu yn gyntaf. |
| Trafodaethau pellach wedi eu cynnal â thimau cymunedol am deuluoedd agored i niwed sydd ddim yn gallu cyrraedd ysbytai nac apwyntiadau'n hawdd. |
| Ystyried rhannu rhagor o wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y Bwrdd Iechyd |
| Cynllun ymgysylltu helaeth i fapio taith Cwm Taf Morgannwg ar y cyd ar gyfer Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan |
| Modelau o ofal yn cael eu harchwilio fel bod modd cynnig parhad o ran gofal i deuluoedd gyda chyflyrau iechyd cymhleth. |

[2] PALS: Mae'r Gwasanaeth Cymorth a Chyswllt Cleifion yn cynnig cyngor cyfrinachol, cymorth a gwybodaeth am faterion iechyd. Maent yn darparu pwynt cyswllt i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
[3] PREM: "Patient Reported Experience Measure": Holiaduron sy'n mesur canfyddiadau cleifion o'u profiadau wrth dderbyn gofal. Gellir defnyddio'r data hyn ar gyfer ymchwil a phrosiectau gwella ansawdd ayyb.

| Nid oedd digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiwallu anghenion teuluoedd |
| --- |
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yma:** |
| Ystyried amseroedd aros a gallu partneriaid i aros dros nos ar wardiau ôl-enedigaeth, er mwyn rhoi cymorth emosiynol ac ymarferol i fenywod a fydd yn annog bondio. |
| Rhoi cymorth i deuluoedd pan gaiff mamau eu derbyn i'r Uned Gofal Dwys, gydag aelod penodedig o staff fesul teulu ar y ward, a chyswllt arbennig i'r teulu fel y gallant dderbyn diweddariadau am gyflwr y fam. |
| Cymorth ymarferol gyda bwydo, sy'n bodloni safonau achredu ar gyfer bwydo ar y fron. |
| Prosiect gofal ar y gweill er mwyn osgoi gwahanu'r fam oddi wrth y babi gymaint â phosibl, yn achos y babanod hynny sydd angen cymorth ychwanegol. |
| **Y Camau Nesaf:** |
| Parhau i adolygu asesiadau risg o gyfyngiadau ar allu partneriaid i ymweld ag ysbytai oherwydd COVID-19. Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyngor a chanllawiau. |
| Gwaith ar y gweill i ddatblygu llwybr gofal arbennig mewn partneriaeth ag unedau newyddenidigol i ofalu am fabanod pan fydd eu mamau yn derbyn gofal dwys. Bydd hyn yn cynnwys taflen wybodaeth arbennig i deuluoedd i'w rhoi pan fydd mamau'n derbyn gofal a thriniaeth y tu allan i wasanaethau mamolaeth. |
| Gwaith i ailachredu safonau bwydo ar y fron yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ar y gweill, er bod asesiadau wedi eu hoedi ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. |
| **Anawsterau corfforol ar ôl llawdriniaeth fawr** |
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yma:** |
| Gwella lefelau staffio ar wardiau ôl-enedigaeth, sy'n cynnwys rhagor o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd a Nyrsys Meithrin er mwyn darparu gofal a chymorth ychwanegol a diwallu anghenion sylfaenol, fel bwydo a golchi ar ôl llawdriniaeth. |
| Lefelau staffio yn cydymffurfio â gofynion Birth Rate Plus® (BR+)[4] ers uno safleoedd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. |
| **Y Camau Nesaf** |
| Parhau i dderbyn adborth rheolaidd gan deuluoedd yn ymwneud â'r gofal a dderbynion nhw, er mwyn sicrhau lefelau uchel o fodlonrwydd. |
| **Anghenion emosiynol ar ôl profiadau trawmatig, a chymorth iechyd meddwl.** |
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yma:** |
| Cynnig clinigau After Thoughts yn Ysbyty Tywysoges Cymru i bob menyw sydd heb gael atebion i'w cwestiynau am eu profiad o roi genedigaeth. Gall y sesiynau hyn amlygu trawma a'r angen am wasanaethau cwnsela, a gellir anfon menywod ymlaen hefyd i gael cymorth iechyd meddwl. |
| Clinigau ar gael dan arweiniad Bydwraig Ymgynghorol i'r menywod hynny sydd wedi cael genedigaeth drawmatig, a chynnig cymorth iddynt i gynllunio beichiogrwydd yn y dyfodol. |
| Adolygiadau gan ymgynghorwyr ar wardiau ôl-enedigaeth cyn rhyddhau menywod o'r ysbyty sydd wedi gael toriad Cesaraidd brys, a chynnig sesiwn rhannu gwybodaeth ar y |

[4] Birth Rate Plus® (BR+): Fframwaith ar gyfer cynllunio'r gweithlu a'r gwaith o wneud penderfyniadau strategol. Mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yn argymell defnyddio Birth Rate Plus® i gynorthwyo gwasanaethau mamolaeth i sefydlu lefelau staffio diogel ledled gwasanaethau cleifion mewnol ac allanol mewn gwasanaethau mamolaeth.

| |
|---|
| ward cyn i fenywod adael yr ysbyty fel bod modd ateb unrhyw gwestiynau neu drafod unrhyw bryderon. |
| I'r teuluoedd hynny sydd yn anffodus yn colli babi, mae ystafell profedigaeth arbennig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. |
| Recriwtio Bydwraig Profedigaeth Arweiniol i gynorthwyo teuluoedd, hyfforddi staff a chynnal grwpiau cymorth. Mae'r swydd hon wedi ei hadolygu, ac mae wedi datblygu i gynnwys goruchwyliaeth strategol, datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd. |
| Mae'r Fydwraig Profedigaeth yn cydlynu sesiynau gwybodaeth cyn i fenywod adael yr ysbyty a'r broses o roi canlyniadau post mortem i deuluoedd. |
| **Y Camau Nesaf** |
| Sefydlu sesiynau gwybodaeth cyn i fenywod adael yr ysbyty a sesiynau dilynol i'r menywod hynny sydd wedi derbyn triniaeth mewn Unedau Gofal Dwys, er mwyn egluro'r rhesymau dros y gofal a ddarparwyd a rhoi'r cyfle i fenywod ofyn cwestiynau a thrafod beichiogrwydd yn y dyfodol. Dylid gwella'r broses o anfon menywod ymlaen i wasanaethau eraill, os bydd angen gwasanaethau adfer uwch. |
| Mwy o staff yn derbyn hyfforddiant iechyd meddwl trwy fuddsoddiad i Gymru gyfan, er mwyn diwallu anghenion iechyd meddwl menywod yn well. |
| Adnewyddu'r Ystafell Profedigaeth yn Ysbyty Tywysoges Cymru. |

## Pa wahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud?

## PALS: Clinigau Care to Share

Cyn pandemig COVID-19, roedd menter ar waith gan PALS i gasglu adborth menywod ar y wardiau geni ddwywaith yr wythnos. Roedd y fenter hon yn cynnig cyfle gwirioneddol i ddatrys unrhyw faterion neu broblemau yn y fan a'r lle. Ym mis Mawrth 2020, dechreuodd PALS gyflwyno'r fenter hon mewn clinigau cyn-geni, er mwyn archwilio profiadau menywod o lwybrau gofal cyn-geni (gan gynnwys paratoi am enedigaeth). Mae adborth yn cael ei rannu â staff, menywod a'u teuluoedd ar ffurf adroddiadau "Fe ddywedoch chi, Fe wnaethon ni". Nodir "Medi" yn y llun, ond "Awst" ddylai fod.



| 5.2 Mynediad at wybodaeth berthnasol a phrydlon |
| --- |
| **Gwybodaeth berthnasol ac amserol am eu hopsiynau, fel y gallant wneud penderfyniadau, gofyn am gymorth a chael tawelwch meddwl.** |
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yma** |
| Mae Cofnodion Beichiogrwydd Cymru Gyfan yn cynnwys manylion cyswllt timau cymunedol penodol, ynghyd â phob asesiad gan wasanaethau mamolaeth a rhai manylion eraill am y ward, ac mae'r Cofnodion hyn ar gael 24 awr y dydd. |
| Mae cofnodion beichiogrwydd yn cynnwys gwybodaeth am symptomau yn ystod beichiogrwydd, cymhlethdodau y dylid cadw llygad amdanynt a chanllawiau iechyd cyhoeddus sydd hefyd yn cael eu trafod â'r fydwraig yn yr apwyntiad cyntaf. |
| **Camau Nesaf** |
| Archwilio Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan ynghylch parhad gofal lle mae menywod yn cael yr un gweithwyr iechyd proffesiynol trwy gydol eu beichiogrwydd,  Mae hyn yn cynnwys cyfle am gynllun geni unigoledig ar ôl oddeutu 36 o wythnosau. |
| Ystyried clinigau cwnsela cyn-beichiogrwydd i fenywod ag anghenion meddygol cymhleth er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer beichiogrwydd diogel ar y cyd â meddygon teulu. |
| Datblygu strategaeth ar gyfer gofal cyn cenhedlu, gan gynnwys rhaglenni sy'n rhoi cymorth ynghylch lles corfforol ac iechyd meddwl i famau ifanc, grwpiau agored i niwed a darpar dadau. |
| **Dim digon o wybodaeth yn cael ei rhoi, yn achosi oedi a dryswch.** |
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yn hyn** |
| Taflenni gwybodaeth sy'n cael eu hargymell yn genedlaethol bellach yn cael eu darparu ynghyd â thaflenni'r Bwrdd Iechyd sy'n cael eu creu ar y cyd gyda grŵp defnyddwyr Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I. |
| Archwiliadau a gweithgorau rheolaidd ynghylch dulliau o brysuro'r geni. Apwyntiadau dilynol gyda menywod sawl wythnos ar ôl rhoi genedigaeth sydd wedi cael profiad o'r broses hon i gael gwybod am eu profiadau. |
| Clinigau gyd Bydwraig Ymgynghorol ar gael i fenywod sy'n dymuno ymchwilio ymhellach i'w gofal, gan roi'r holl wybodaeth iddyn a'u galluogi i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u hopsiynau o ran gofal mewn modd rhagweithiol ac amserol. |
| Defnyddio'r cyfyngau cymdeithasau ar gyfer teithiau tywys ar-lein o wasanaethau mamolaeth ysbytai. |
| Negeseuon yn cael eu hanfon a'u rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| **Camau Nesaf** |
| Bydd digwyddiadau ymgysylltu Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan yn tynnu sylw at ddymuniadau lleol, er enghraifft parhad gofal i fenywod gyda'r un gweithwyr iechyd proffesiynol drwy gydol eu beichiogrwydd, wrth roi geni ac ar ôl rhoi geni, er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau cleifion. |
| Ystyried clinigau cwnsela cyn-beichiogrwydd i fenywod ag anghenion meddygol cymhleth er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer beichiogrwydd diogel ar y cyd â meddygon teulu. |
| Argaeledd taflenni gwybodaeth ar y dudalen we ar gyfer mamolaeth ac ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn galluogi pobl i gael gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a lles yn ystod beichiogrwydd. |
| Fideos gwybodaeth ar y gweill sy'n esbonio sut mae prysuro'r geni yn gweithio i fenywod a'u teuluoedd. |

Parhau i weithio ar y cyd â Gwelliant Cymru ynghylch canlyniadau arolygon o brofiad menywod o roi genedigaeth.

## Pa wahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud?

## Ceisio Help a Thawelwch Meddwl



## 5.3 Methiant i fonitro cynnydd ac i uwchgyfeirio gofal

| | Dywedodd nifer o fenywod fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â monitro eu cynnydd nac uwchgyfeirio eu gofal |
|---|---|
| | **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yma:** |
| | Diweddarwyd y polisi uwchgyfeirio i nodi rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer y staff yn ystod cyfnodau o aciwtedd uchel yn y gwasanaeth ac yn ystod argyfwng. Mae hyn yn cynnwys Uwch-reolwr Bydwreigiaeth penodedig ar alw i roi cyngor a chymorth. |
| | 60 o oriau o bresenoldeb gan Ymgynghorydd yn y gwasanaeth er mwyn parhau i oruchwylio pob menyw, trwy ymweld â'r wardiau'n rheolaidd, trosglwyddo gofal rhwng sifftiau a sgrymiau diogelwch. Mae hyn yn cynnwys rhestr sbardunau ar gyfer achosion pan fydd adolygiad gan ymgynghorydd yn hanfodol. |
| | Cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol yn cael ei hadrodd bob mis a'i monitro ar lefel y Bwrdd Gweithredol.<br>Hyfforddiant PROMPT[5] gorfodol bob blwyddyn i bob bydwraig a meddyg ynghylch gwella penderfyniadau clinigol yn ystod argyfyngau, a chydnabod arwyddion a symptomau cleifion sy'n dirywio. |
| | Hyfforddiant pellach ar gyfer monitro Cardiotocograffau (curiad calon y ffetws) gyda diwrnodau astudio a chyfarfodydd bob wythnos er mwyn trafod achosion. |
| | Goruchwylio agosach ar gyfer monitro twf babanod yn ystod beichiogrwydd drwy raglenni hyfforddi GAP a GROW.[6] |
| | Safon y dogfennau'n gwella wrth gynnal archwiliadau o sicrwydd bob mis a rhannu themâu a thueddiadau â phob grŵp staff. Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[7] ac atebolrwydd yn cael eu trafod yn ystod sesiynau goruchwylio'r staff. |
| | Pob canllaw a pholisi wedi eu diweddaru i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r canllaw cenedlaethol, a hynny ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ac mae'r rhain wedi eu rhannu ar y storfa canllawiau i Gymru gyfan, WISDOM. Cyfarfodydd adlewyrchu ar gael i'r holl staff er mwyn adolygu achosion a thrafod yr hyn oedd yn dda a nodi unrhyw beth i'w wella. |
| | Cyfarfodydd o'r Tîm Amlddisgyblaethol bob wythnos er mwyn trafod digwyddiadau a dysgu ohonynt, er mwyn sicrhau gwelliannau. |
| | **Camau Nesaf** |
| | Archwiliadau parhaus i sicrhau bod y gweithiwr proffesiynol arweiniol cywir yn cael ei gydnabod wrth gofrestru cleifion, er mwyn sicrhau bod llwybrau risg isel neu risg uchel yn cael eu nodi'n gywir. |

[5] PROMPT: Rhaglen hyfforddi sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol i unedau mamolaeth. Bydd hon yn helpu bydwragedd, obstetryddion, anaesthetegyddion ac aelodau eraill o'r tîm mamolaeth i fod yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol.

[6] GAP a GROW: Pecynnau hyfforddi wedi eu creu gan y Perineal Institute (sef darparwr cymwysedig o wasanaethau cymorth mamolaeth, gan gynnwys addysg a hyfforddiant ynghylch cofnodion mamolaeth safonedig, asesiad o dwf y ffetws ac archwiliadau amenedigol) ar gyfer mamolaeth ac iechyd y plentyn, er mwyn helpu unedau mamolaeth i fesur a monitro twf babanod yn ystod beichiogrwydd yn gywir.


[7] Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yw Rheoleiddwyr proffesiynol i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, yn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol y wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu gofal cyson o ansawdd uchel sy'n cadw pobl yn ddiogel.

| | |
|---|---|
| | Archwiliadau parhaus ynghylch effeithiolrwydd trosglwyddo gofal rhwng sifftiau er mwyn sicrhau bod manylion hollbwysig yn cael eu trosglwyddo i'r timau perthnasol pan fydd pob sifft yn newid. |
| | Archwiliadau parhaus o siartiau arsylwi a rhestrau gwirio'r theatrau. |
| | **Risg o esgeuluso cleifion heb wiriadau rheolaidd ac y bydd staff yn cymryd pethau'n ganiataol** |
| | **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yn hyn** |
| | Cydymffurfiaeth â Birth Rate Plus ar draws y safleoedd er mwyn sicrhau nad yw llwyth gwaith y staff yn ormod. Gwella lefelau staffio, sy'n cynnwys rhagor o weithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys meithrin er mwyn darparu mwy o ofal a chymorth. |
| | Adnoddau aciwtedd dyddiol yn eu cwblhau i asesu lefelau staffio diogel ar draws y gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod pob menyw yn gallu cael gofal un wrth un wrth iddynt roi genedigaeth. |
| | **Camau Nesaf** |
| | Monitro profiad menywod o'u gofal yn barhaus. |
| | Digwyddiadau ymgysylltu er mwyn helpu i greu llwybrau gofal ar y cyd. |

## Pa wahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud?

## Cydnabod babanod sy'n fach am eu hoedran

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith helaeth ynghylch monitro twf babanod yn ystod beichiogrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda rhaglenni GAP a GROW penodedig y Perinatal Institute ac mae ein Bydwraig Goruchwylio'r Groth wedi darparu hyfforddiant gorfodol blynyddol i'r staff. Mae hyn yn cynnwys y dechneg gywir ar gyfer mesur abdomen mam yn ystod beichiogrwydd ond hefyd y camau cywir y mae angen eu dilyn os bydd problem. O ran archwiliad y Perinatal Institute, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn well na'r cyfartaledd o ran canfod babanod bach yn ystod dau chwarter olaf 2020.



## 5.4 Cyfathrebu

| Cyfathrebu aneffeithiol rhwng timau ac arbenigwyr (timau mamolaeth, meddygol, cymunedol a gofal sylfaenol) |
|---|
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yn hyn** |
| Meddygon teulu yn defnyddio Consultant Connect er mwyn trafod cleifion Gynaecoleg ac Obstetreg. |
| Penderfyniadau ar y cyd rhwng Obstetryddion, Anaesthetegyddion a thimau meddygol ar gyfer menywod sy'n cael gofal a thriniaeth y tu hwn i'r adran mamolaeth (yn cynnwys Gofal Dwys). |
| Pob menyw feichiog yn yr ysbyty, nid y rheiny ar y wardiau mamolaeth yn unig, yn cael eu cynnwys wrth drosglwyddo gofal rhwng sifftiau ac ar hysbysfyrddau, er mwyn sicrhau bod y Tîm Amlddisgyblaethol yn goruchwylio ac yn adolygu'n gadarn. |
| Trafodaethau parhaus â chanolfannau trydyddol, megis Ysbyty Athrofaol Cymru, i fenywod y mae angen gofal mwy arbenigol arnynt. |
| Bydd hysbysiad ar System Rheoli Risg Datix bob tro y bydd menyw feichiog yn cael ei derbyn i'r Adran Gofal Dwys ar ôl rhoi genedigaeth, er mwyn cynnal adolygiad llawn o'i gofal. |
| Proses rhyddhau cleifion electronig er mwyn atgyfeirio'n amserol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr yn y gymuned. |
| **Y Camau Nesaf:** |
| Canllaw gofal critigol ar gyfer mamolaeth ar y gweill, gan gynnwys siart dibyniaeth uchel a hyfforddiant i fydwragedd, er mwyn darparu'r gofal arbenigol hwn. |
| Proses adolygu i fenywod sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu eu trosglwyddo i ysbytai cyfagos, er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am eu cyflwr yn rheolaidd. |
| **Arweiniodd cyfathrebu gwael rhwng timau yn ystod y geni at banig a dryswch yn ystod argyfyngau** |
| **Gwelliannau'r Bwrdd Iechyd hyd yn hyn:** |
| Hyfforddiant PROMPT gorfodol blynyddol sydd wedi ei gydnabod yn genedlaethol i bob bydwraig a meddyg (gan gynnwys Anaesthetegyddion) er mwyn gwella penderfyniadau clinigol a gwaith tîm pan fydd argyfwng. |
| Rhagor o'r staff wedi eu hyfforddi i ddarparu hyfforddiant PROMPT. |
| Driliau sgiliau byw yn cael eu cynnal er mwyn profi ymatebion yn ystod argyfwng. |
| **Y Camau Nesaf:** |
| Datblygu rhaglen o ddriliau sgiliau asesedig gyda chysylltiad clir â hyfforddiant PROMPT a chanllawiau'r Bwrdd Iechyd. |

# Pa wahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud?


## Cyflwyniad a chydymffurfiaeth â Hyfforddiant PROMPT gorfodol

**PROMPT Wales**

Practical Obstetric Multi-Professional Training
Hyfforddiant Ami-broffesiynol Ymarferol Mewn Obstetreg

CYMRU / WALES
PROMPT
PRactical Obstetric Multi-Professional Training
Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg

Rhaglen hyfforddi ar gyfer unedau mamolaeth yw *PROMPT* sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol. Mae'n helpu bydwragedd, obstetryddion, anaesthetegyddion ac aelodau eraill o'r tîm mamolaeth i fod yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol. Mae arweinwyr penodedig *PROMPT* gan CTM sy'n hybu'r rhaglen hyfforddi hon ar draws y gwasanaeth mamolaeth. Mae'r hyfforddiant hwn wedi gwella'r perthnasau rhwng y timau amlddisgyblaethol yn fawr iawn. Cydymffurfiaeth CTM o ran hyfforddiant *PROMPT* oedd yr ail uchaf o blith yr holl wasanaethau â Thimau Amlddisgyblaethol yng Nghymru cyn pandemig COVID-19.  Mae cynllun adfer i Gymru gyfan ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant hanfodol hwn.



## 6.0 Y gwelliannau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi eu cwblhau eisoes

Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn cynnwys camau gwella sy'n dod yn uniongyrchol o argymhellion Adroddiad 2019 y Colegau Brenhinol, a daw'r gweddill o adolygiadau cysylltiedig neu gamau gweithredu newydd a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn sgil ei ddadansoddiad ei hun. Mae BIP CTM yn darparu tystiolaeth yn rheolaidd i'r Panel (IMSOP) er mwyn sicrhau bod camau gweithredu wedi eu cyflawni. Hyd yma, mae 50 o 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cymeradwyo gan IMSOP.

Nododd yr adroddiad thematig fod ffactorau addasadwy a chamau gweithredu cysylltiedig yn ymwneud â 24 o argymhellion gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr/y Coleg Bydwreigiaeth Brenhinol. Mae 17 o'r rheiny wedi eu cynnwys yn yr argymhellion y mae IMSOP eisoes wedi eu nodi ac maent yn cynnwys y camau gweithredu sydd isod.

Mae'r **gwasanaeth profedigaeth** wedi cael ei adolygu a gwnaed gwelliannau er mwyn sicrhau bod cymorth a chwnsela priodol ar gael i bob teulu, er bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ei sefydlu erbyn hyn gan fforwm *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I* er mwyn sicrhau rhagor o welliannau ar y cyd (*argymhelliad 7.55 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Datblygiad Strategol **– Ceisio cyngor arbenigol allanol ynghylch bydwreigiaeth ac obstetreg er mwyn datblygu strategaeth mamolaeth, a manteisio ar y cyfle i ystyried ffyrdd newydd o weithio (argymhelliad 7.58 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr).**

**Amgylchedd Hyfforddi** – Mynd ati'n rhagweithiol i rannu canfyddiadau adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr â Deoniaeth Cymru a'i hannog ar frys i ailymweld â'r Bwrdd Iechyd er mwyn: ailasesu ansawdd y sesiynau ymsefydlu, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth yn y maes obstetreg; sicrhau bod y gwasanaeth yn addas i weithwyr dan hyfforddiant; a phenodi tiwtor penodedig o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr i roi cymorth i'r gweithwyr dan hyfforddiant yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (argymhelliad 7.33 *Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Mae **Tîm Llywodraethiant a Risg Mamolaeth** bellach wedi cael adnoddau priodol er mwyn sicrhau bod modd ymdopi â llwythau gwaith, ac mae system ar gyfer cofnodi digwyddiadau iechyd a diogelwch ar waith i adolygu a graddio'r digwyddiadau hyn a chymryd camau gweithredu yn eu sgil mewn modd priodol ac amserol (argymhelliad 7.27 *y Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Mae **pob Aelod Annibynnol o'r Bwrdd** wedi cael hyfforddiant ynghylch goblygiadau Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiadau Corfforaethol 2007 er mwyn deall eu rôl yn well o ran sicrhau diogelwch y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd (*argymhelliad 7.64 y Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Mae **rhaglen hyfforddiant gorfodol** (sy'n cynnwys hyfforddiant CTG, PROMPT, GAP a GROW) wedi cael ei dylunio a'i chyflwyno i'r holl staff meddygol a bydwreigiaeth ac mae lefel uchel o gydymffurfiaeth wedi eu cyrraedd (*argymhelliad 7.5 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Mae'r gwelliannau a nodwyd gan y Colegau Brenhinol o ran **dulliau ymgynghorwyr o weithio, argaeledd ymgynghorwyr, goruchwylio meddygon dan hyfforddiant a datblygu rhaglenni addysgu amlddisgyblaethol** bellach wedi eu datblygu i'r fath raddau fel bod y Bwrdd Iechyd erbyn hyn yn eu hystyried yn rhan graidd o arfer weithredol (*argymhelliad 7.24, 7.32 a 7.37 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

**Adolygu a diweddaru canllawiau mamolaeth.** Mae'r rhain wedi eu datblygu â system gadarn er mwyn sicrhau bod canllawiau sydd wedi eu diwygio yn cael eu gwirio o ran ansawdd, ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u defnyddio'n ymarferol ar sail amlddisgyblaethol (*argymhelliad 7.2 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Mae'r **systemau adrodd digwyddiadau** wedi cael eu cryfhau, trwy ddefnyddio'r system adrodd digwyddiadau'n fwy effeithiol, gwell hyfforddiant a chyflwyno fforymau amlddisgyblaethol, er mwyn annog y staff meddygol a'r staff bydwreigiaeth i nodi, asesu ac ymateb i ddigwyddiadau niweidiol (*argymhelliad 7.15 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Mae**'r hyn a ddysgir oddi wrth ddigwyddiadau difrifol** yn cael ei rannu â staff ar bob lefel yn rheolaidd mewn fformatau hygyrch, ac mae teuluoedd yn rhan graidd o'r broses ymchwilio (*argymhelliad 7.22 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Mae **Fforwm *Fy Mamolaeth I, Fy Ffordd I*** bellach wedi cael ei ailddatblygu a'i atgyfnerthu i'r fath raddau fel bod y fforwm yn ddull effeithiol o ymgysylltu bellach, rhywbeth a oedd ar goll yn ôl y Colegau Brenhinol (*argymhelliad 7.47 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*).

Yr hyn sy'n arbennig o bwysig yw'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn, erbyn hyn, wedi ennill ei blwyf, a arweiniodd at y sylw hwn gan IMSOP yn ei adroddiad diweddaraf:

> '*Mae digon o gynnydd wedi cael ei wneud o ran y ffordd mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â menywod a theuluoedd i ddod i'r casgliad bod y* ***model ymgysylltu*** *mae'r Colegau Brenhinol yn ei argymell wedi cael ei roi ar waith i raddau helaeth, a'i fod yn adnodd 'busnes fel arfer' i'r gwasanaeth mamolaeth erbyn hyn (argymhellion 7.49, 7.50 a 7.52 Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr*);

## 6.1 Y gwelliannau sydd ar y gweill ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, mae 20 o argymhellion ar y gweill sy'n ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- Rheoli digwyddiadau difrifol a'u cofnodi
- Rheoli pryderon yn unol â Gweithio i Wella.
- Ymgysylltu â menywod a'u teuluoedd
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o ran hyfforddiant, cymorth clinigol, gwerthoedd ac ymddygiad

Mae crynodeb o'r saith argymhelliad sy'n weddill, sy'n ymwneud â chanfyddiadau'r adolygiad thematig, isod. Mae rhagor o wybodaeth fanwl ynglŷn â'r argymhellion hyn yn Atodiad 2.

| Argymhelliad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr | Crynodeb o'r Argymhelliad |
|---|---|
| **7.7** | *Sicrhau amgylchedd o breifatrwydd ac urddas i fenywod sydd wedi colli babi yn ystod beichiogrwydd yn unol â safonau gofal cenedlaethol.* |
| **7.42** | *Cwblhau gwaith gyda staff ar bob gradd ynghylch cyfathrebu, parch at bawb ac ymddygiad proffesiynol.* |
| **7.1** | *Adolygu ar frys y systemau sydd ar waith ar gyfer casglu data a gwirio cywirdeb y data a ddefnyddir i fonitro arfer a chanlyniadau clinigol.* |
| **7.8** | *Sicrhau cymorth gan arbenigwyr allanol er mwyn galluogi adolygiad llawn o arferion gweithio â'r nod o sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei ystyried ar bob cam o ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys canllawiau lleol a gwella arweinyddiaeth glinigol ymhellach.* |
| **7.19** | *Sicrhau bod system sy'n nodi, graddio ac archwilio i ddigwyddiadau difrifol yn rhan graidd o arfer proffesiynol.* |
| **7.20** | *Mynd ati'n rhagweithiol i geisio dileu'r 'diwylliant o feio' er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn fodlon adrodd digwyddiadau difrifol a dysgu ohonynt.* |
| **7.35** | *Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant i bob aelod o staff, a nodi diffygion o ran sgiliau a thargedu hyfforddiant ychwanegol.* |

## 7.0 Diogelu cyfrinachedd ein teuluoedd

### Hafan Ddiogel

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal a chadw cronfa ddata ddiogel o’r teuluoedd sy’n rhan o’r rhaglen adolygu clinigol o’r enw *Hafan Ddiogel*. Mae hyn yn rhan o Datix, sef System Rheoli Risg Ddiogel y Bwrdd Iechyd. Mae’r *Hafan Ddiogel* yn cael ei defnyddio fel storfa wybodaeth ar gyfer datblygu achosion yn barhaus, a chaiff canfyddiadau a chynlluniau gweithredu sy’n dod yn sgil yr adolygiad eu storio ynddi. Dim ond nifer fach o uwch-aelodau o staff y Bwrdd Iechyd sydd â mynediad i’r *Hafan Ddiogel*. Mae hyn yn sicrhau bod yr wybodaeth sy’n ymwneud â theuluoedd yn yr adolygiad clinigol yn ddarostyngedig i fesurau llym o ran rheoli fersiynau a mynediad.

Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda chydweithwyr IMSOP drwy borth diogel ac mae pob achos yn ddienw ac yn cael rhif unigryw wedi ei neilltuo iddo, er mwyn sicrhau na fydd manylion personol yn cael eu datgelu. Mae gwiriadau sicrwydd yn cael eu cynnal wrth drosglwyddo unrhyw wybodaeth, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn ddiogel.

### 7.1 Adborth gan deuluoedd ac ymgysylltiad a chymorth parhaus

Unwaith i deuluoedd ofyn am fanylion eu hadolygiad clinigol gan IMSOP, bydd y Bwrdd Iechyd yn ysgrifennu at y teuluoedd yn cydnabod y canfyddiadau ac yn amlinellu’r gwelliannau a wnaed parthed eu gofal a’r cynnydd o ran y camau gweithredu sydd ar y gweill.

Os bydd gan deuluoedd ragor o gwestiynau neu bryderon, byddant yn cael cynnig cyfarfod ag uwch-aelodau o staff y Bwrdd Iechyd ac, os bydd yn briodol, aelodau o’r Panel annibynnol (IMSOP).

Yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gydnabod, adolygu a derbyn canfyddiadau IMSOP, mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd hefyd i ystyried a oes angen ymchwiliad ai peidio o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 a’n Canllawiau Gweithio i Wella. Os byddant yn dymuno, bydd teuluoedd yn cael cymorth llawn yn ystod y broses hon gan Dîm Pryderon y Bwrdd Iechyd a’r Cyngor Iechyd Cymuned.

## 8.0 Y Camau Nesaf

Canfu adroddiad y Panel Annibynnol ym mis Medi 2020 fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhagor o gynnydd, er gwaethaf y pandemig. Gyda chymorth gan IMSOP a Llywodraeth Cymru, bydd BIP CTM yn parhau i weithio ar ei gynlluniau gwella, sy'n helaethach erbyn hyn o ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiadau allanol.

Yn rhan o'i waith parhaus i graffu ar y Gwasanaethau Mamolaeth, nododd IMSOP hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl o ran yr adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ers mis Hydref 2018. Er bod y broses bresennol o reoli digwyddiadau difrifol wedi datblygu'n sylweddol, mae'r nifer sydd heb eu cwblhau yn destun pryder. Mae'r holl ddigwyddiadau wedi cael eu hadolygu er mwyn canfod unrhyw wersi amlwg i'w dysgu. Fodd bynnag, mae'r oedi yn anffodus iawn ac yn peri cryn ofid i'r teuluoedd sy'n aros am atebion. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n recriwtio ymchwilwyr allanol profiadol er mwyn ymateb yn gyflymach, heb fod hyn yn effeithio ar ansawdd yr ymchwiliadau eu hunain. Bydd IMSOP a Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r cynnydd hwn ac mae ein Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro'n ddiffuant fod yr oedi hwn yn parhau.

## 9.0 Casgliad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn helpu rywfaint i roi sicrwydd i'n cymuned ynghylch y gwaith helaeth sydd wedi ei gyflawni er mwyn gwella gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd.

Mae rheoli effaith y pandemig, heb os, wedi arwain at oedi o ran cynnydd mewn ambell faes, gan fod ein sylw wedi troi at ddarparu gofal diogel mewn amgylchiadau hynod o heriol. Mae'r adborth tra chadarnhaol y mae'r Gwasanaeth wedi ei dderbyn gan deuluoedd yn destament i'r staff sydd wedi mynd y filltir ychwanegol i sicrhau bod y gwasanaethau wedi parhau, er bod y gwasanaethau hynny wedi eu darparu mewn ffyrdd newydd sydd weithiau'n llai agos-atoch. Y dystiolaeth orau o'r newidiadau yn niwylliant y gwasanaeth a'i allu i weithio fel tîm yw sut maent wedi ymateb i gyfnod o newid parhaus a heriau diddiwedd Mae'r Gwasanaeth yn hynod o ddiolchgar i'r teuluoedd sydd wedi derbyn y newidiadau mewn modd mor wydn a dewr. Mae'r gwerthfawrogiad diddiwedd sydd wedi ei roi i'n timau yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn gymaint o hwb. Mae gwaith yn parhau gyda chydweithwyr yn y Cyngor Iechyd Cymuned i ymateb i'w harolwg diweddar ynghylch profiadau teuluoedd o ofal mamolaeth yn ystod pandemig COVID-19.

"Mae CTM yn cydnabod canfyddiadau adroddiad IMSOP heddiw, ac rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn gyfraniad at ddangos uchelgais ddi-ball y Bwrdd Iechyd, a'i wasanaethau mamolaeth yn arbennig, i ddarparu gwasanaethau cynhwysol o safon aur i'n menywod a'n teuluoedd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gall yr adroddiad ennyn emosiynau nid yn unig i'r teuluoedd dan sylw yn yr adolygiad clinigol, ond hefyd i'r rhai sy'n teimlo eu bod wedi cael profiadau tebyg yn y Bwrdd Iechyd, neu'r rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau ar hyn o bryd. Mae'r llinell gyswllt arbennig ar gael i unrhyw un sydd am holi cwestiynau neu godi pryderon am eu gofal mamolaeth, yn ddiweddar neu yn y gorffennol. Mae'r llinell gyswllt ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9am-5pm, ac mae modd gadael neges lais y tu allan i'r oriau hyn. Bydd aelod o'r Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn cymryd eich manylion, a bydd aelod o staff yn dychwelyd yr alwad o fewn dau ddiwrnod gwaith i drafod sut orau y gall eich cynorthwyo. Efallai y bydd y taflenni gwybodaeth yn Atodiad 3 neu 4 yn ddefnyddiol o ran gwybodaeth bellach a chymorth.

Y rhif cyswlt yw **01685 728741**.

Fel arall, e-bostiwch: CTM_Maternityimprovementprogramme@wales.nhs.uk.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod y menywod a'r teuluoedd dan ei ofal wrth galon ei waith, ac mae'n ymrwymedig i fod yn onest ac yn dryloyw bob amser mewn perthynas â'i daith at wella. Bydd y gonestrwydd hwn yn helpu i feithrin ymddiriedolaeth a hyder unwaith eto yng ngwasanaeth mamolaeth CTM.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau na fyddwn byth yn anghofio'r teuluoedd yn yr adolygiad, ac yn sicrhau mai eu profiadau nhw fydd y sylfaen gadarn y byddwn yn adeiladu arni yn y dyfodol."

## 10. ATODIADAU:

### Atodiad 1: Map o Broses Adborth Clinigol y Bwrdd Iechyd

**Mae'r siart llif hwn yn amlinellu proses y Bwrdd Iechyd unwaith i adborth gael ei dderbyn gan IMSOP.**
Mae gan y Bwrdd Iechyd 15 diwrnod gwaith i asesu'r adborth ar gyfer 6 achos, i gydnabod y canfyddiadau ac i nodi gwersi i'w dysgu a chamau gweithredu.

**D. Llun Wyth. 1**

- Y Bwrdd Iechyd yn derbyn 6 achos
- Manylion cleifion yn cael eu gwirio ar gyfer pob achos cywir a dderbynnir
- Llunio ffurflen Cabinet Clinigol y Bwrdd Iechyd yn nodi'r prif ganfyddiadau a'r gwersi i'w dysgu

**D. Iau Wyth. 1**

- Y MIT yn cyfarfod i drafod y canfyddiadau â'r tîm amlddisgyblaethol Cytuno ar argymhellion a chamau gweithredu i'w rhoi gerbron y Cabinet Clinigol

**D. Gwener Wyth. 1**

- Anfon argymhellion o unrhyw Ddadansoddiadau o Wraidd y Broblem blaenorol, a ffurflenni Cabinet Clinigol sydd wedi eu cwblhau, i'r grŵp Cabinet Clinigol mewn cyfarfod ar-lein i fod yn destun pleidlais.

**Wythnos 2**

- Cyfarfod ar lein Dydd Mercher o'r Cabinet Clinigol i bleidleisio/cytuno ar argymhellion/camau gweithredu Uwchlwytho'r camau gweithredu i'w cymryd i'r traciwr adolygiadau clinigol Casglu tystiolaeth o gamau gweithredu a gaewyd
- Anfon achos gan IMSOP (â rhywfaint o wybodaeth wedi ei chuddio) a'r ffurflen Cabinet Clinigol i'r Tîm Gweithio i Wella yn y Bwrdd Iechyd i'w hadolygu

**Wythnos 3**

- Adolygiad PTR a chyfarfod i drafod y camau nesaf Tîm MIT Dydd Llun yn derbyn cymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol/y Bwrdd

**D. Gwener Wyth. 3**

- Cwblhau rhestr wirio IMSOP erbyn Dydd Iau a'i dychwelyd i IMSOP erbyn amser cinio Dydd Gwener Mae hyn yn cynnwys y ffurflen Cabinet Clinigol orffenedig a'r camau gweithredu i'w cymryd

**Arweinwyr IMSOP yn nodi a yw'r gwersi iawn wedi eu dysgu**

1. **Anfon llythyr cychwynnol IMSOP**
2. **Anfon llythyr ac adroddiad manwl IMSOP os gofynnodd y teulu am hyn**
3. **Anfon ymateb y Bwrdd Iechyd ar ffurf llythyr bythefnos ar ôl derbyn ail lythyr IMSOP**
4. **Anfon llythyr PTR ychwanegol y Bwrdd Iechyd os oes angen**

**Mae llythyr ymateb y Bwrdd Iechyd yn rhoi cyfle i deuluoedd gwrdd â'r Bwrdd Iechyd os dymunant hynny, i drafod gwaith gwella.**

## Atodiad 2: Y saith argymhelliad gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr sydd eto i'w cyflawni

| Argymhelliad | | Ymateb |
|---|---|---|
| **7.7** | ***Sicrhau amgylchedd o breifatrwydd ac urddas i fenywod sydd wedi colli babi yn ystod beichiogrwydd yn unol â safonau gofal cenedlaethol.*** | Mae gwasanaethau wedi eu lletya mewn adeiladau dros dro o hyd ar hyn o bryd, ond mae gwelliant mawr wedi bod o gymharu â'r hen safle ers symud ym mis Medi 2020. Mae mwy o le yno, felly mae gan fenywod fwy o breifatrwydd ac maent mewn amgylchedd tawel a llonydd. Yn ystod y pandemig, mae hyn hefyd yn gwella diogelwch i fenywod gan nad ydynt yn dod i gyswllt â wardiau cyffredinol.<br>Mae apwyntiadau uwchsain wedi cael eu had-drefnu fel bod staff beichiogrwydd cynnar yn gallu treulio rhagor o amser gyda phob menyw i drafod â hi ar ôl cael sgan ac i gynnig cwnsela.<br><br>Ailddechreuodd y clinig camesgoriadau ailadroddol ddiwedd 2020. Mae'r clinig yn cynnig ymgynghoriadau dros y ffôn ar hyn o bryd oherwydd y pandemig. |
| **7.42** | ***Mewn cydweithrediad â'r Adran Datblygu Sefydliadol, cwblhau gwaith gyda staff ar bob gradd ynghylch cyfathrebu, parch at bawb ac ymddygiad proffesiynol.***<br>• Rhaid dwyn staff i gyfrif am ymddygiad gwael, a rhaid iddynt ddeall sut mae hyn yn effeithio ar ddiogelwch menywod a'u canlyniadau iechyd. | Mae nifer o brosiectau gwaith wrthi'n cael eu datblygu yn fewnol gan y Gwasanaeth Lles a chydweithwyr yn yr Adran Gweithlu.<br><br>Mae Arweinydd Lles y Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda gwasanaethau mamolaeth i ddatblygu holiaduron pwrpasol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio ei set newydd o werthoedd ac ymddygiadau, ac mae'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol wrthi'n cynllunio sut y gellir gweithredu'r set hon o werthoedd ac ymddygiadau yn y gwasanaeth hwn yn arbennig. Mae cynllun gwaith wrthi'n cael ei ddatblygu i sicrhau y bydd hyn yn llwyddiant.<br><br>Mae negeseuon clir i bob aelod o staff mewn perthynas â safonau ymddygiad proffesiynol, sydd wedi eu cysylltu â chodau proffesiynol. |
| **7.1** | **Adolygu'r systemau sydd ar waith ar frys:**<br>• Ar gyfer casglu data<br>• Dilysu clinigol<br>• Gwirio cywirdeb y data a ddefnyddir i fonitro ymarfer clinigol a chanlyniadau<br>• Darparu gwybodaeth i archwiliadau cenedlaethol | Mae dull Cymru Gyfan o reoli data wedi ei gytuno mewn egwyddor. Fodd bynnag, bydd yn amser hir eto cyn caffael a darparu'r system hwn i Gymru gyfan.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dau system cyfrifiadurol ar hyn o bryd i gasglu data:<br>• Ysbyty'r Tywysog Siarl - System MITS a ddyluniwyd yn fewnol<br>• Ysbyty Tywysoges Cymru - Myrddin/WPAS i Gymru gyfan.<br><br>Mae Dadansoddwr Data yn BIP CTM wedi defnyddio Qlik Sense (sef system data). Mae data o bob cwr o wasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn cael eu gwerthuso a'u defnyddio i roi trosolwg i'r Bwrdd Iechyd o sgoriau ar gyfer mesurau a gytunwyd arnynt.<br><br>Mae data gan wasanaethau mamolaeth ar gyfer Archwiliadau Cenedlaethol, fel yr Archwiliad Mamolaeth ac Amenedigol Cenedlaethol, yn cael eu casglu gan Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru - mae'r data hyn yn cael eu gwerthuso gan y Bwrdd Iechyd cyn eu rhannu'n genedlaethol.<br><br>Mae Gwasanaethau Newyddenedigol yn defnyddio BadgerNet i gasglu data. Mae'r system hwn yn cael ei ddefnyddio gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol, ac ar gyfer gwasanaethau mamolaeth |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>hefyd mewn rhai achosion. Bydd y Bwrdd Iechyd yn archwilio’r posibilrwydd o gael BadgerNet ar gyfer gwasanaethau mamolaeth.<br><br>Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu caffael System Archwilio Clinigol a Thystiolaeth Cenedlaethol, a phenodi Hwylusydd NICE i gynorthwyo gwaith cydymffurfiaeth ledled y sefydliad.</td></tr>
<tr><td>7.8</td><td>Sicrhau cymorth gan arbenigwyr allanol er mwyn galluogi adolygiad llawn o arferion gweithio â’r nod o sicrhau:<br>• bod diogelwch cleifion yn cael ei ystyried ar bob cam wrth ddarparu gwasanaethau;<br>• bod adolygiad llawn o rolau a chyfrifoldebau yn y tîm obstetrig;<br>• bod canllawiau’n cael eu datblygu a’u rhoi ar waith;<br>• bod system ar waith ar gyfer arweinyddiaeth glinigol a bod y staff priodol yn cael yr hyfforddiant a’r cymorth iawn<br>• bod cynllun hirdymor a strategaeth gan y gwasanaeth;<br>• Mae rhaglen ar waith ar gyfer datblygiadau diwylliannol i hwyluso cydweithio amlddisgyblaethol gwirioneddol</td><td>Ymhlith y dystiolaeth sydd eisoes wedi ei rhoi i IMSOP y mae’r canlynol:<br>Diogelwch Cleifion:<ul><li>Cyfarfodydd wythnosol am risgiau clinigol</li><li>Clwb Brecwast yr Uwch-dîm - “Moderates” ac uwch</li><li>Adolygiad Sydyn 72 awr gan Dîm Amlddisgyblaethol</li><li>Cyfarfodydd Adlewyrchu Clinigol</li><li>Cyfarfod Llywodraethiant Misol</li><li>Archwiliad Misol a Diwrnod Llywodraethiant</li></ul><br>Rolau a chyfrifoldebau’r Tîm Obstetrig<ul><li>Rôl yr Obstetrydd Ymgynghorol ar alw</li><li>Rhestr o sbardunau i nodi pryd bydd angen i ymgynghorydd fod yn bresennol</li><li>Polisi Uwchgyfeirio</li><li>Polisi ynghylch “Call Jumping” i staff</li><li>Canllawiau Amlddisgyblaethol ar gyfer Trosglwyddo Gofal rhwng Sifftiau</li><li>Cyfarwyddwr Clinigol i gynllunio swyddi</li></ul><br>Canllawiau’r Gwasanaeth Mamolaeth:<br>Mae pob canllaw wedi ei ddiweddaru a’i gymeradwyo, a byddant yn cael eu monitro trwy’r Grŵp Canllawiau. Mae blaengynllun gweithredu yn ei le, ac mae’n cael ei adolygu bob mis gan y grŵp.<br><br>Arweinyddiaeth:<br>Mae timau uwch wedi cwblhau hyfforddiant arweinyddiaeth gan ddarparwyr allanol. Mae disgwyl i dimau gwblhau a chyflwyno eu prosiectau unigol ym mis Chwefror 2021.<br><br>Cynlluniau at y dyfodol:<br>Mae cydweithwyr yn Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn cynllunio cyfres bwrpasol o fentrau i sicrhau bod y diwylliant yn y gweithle yn parhau i wella.<br>Mae Arweinydd Bydwreigiaeth wedi ei phenodi i arwain y gwaith o lunio cynlluniau datblygu pwrpasol, er mwyn cryfhau a datblygu ein gweithlu.</td></tr>
<tr><td>7.19</td><td>Sicrhau bod system o nodi, graddio ac archwilio Digwyddiadau Difrifol ar waith, trwy:<ul><li>hyfforddiant priodol i aelodau allweddol o staff</li><li>sicrhau bod ymchwiliadau yn amlddisgyblaethol</li></ul></td><td>Mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn perthynas â rheoli Digwyddiadau Difrifol yn y Bwrdd Iechyd, a hynny cyn ac ar ôl adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. Trwy adolygiadau Sydyn 72 awr gan y Tîm Amlddisgyblaethol, mae modd i Dîm Amlddisgyblaethol gynnal adolygiad a llunio adroddiad am y Digwyddiad Difrifol ar gyfer pob adroddiad y mae angen ei gofnodi. Mae pecyn cymorth y Bwrdd Iechyd ar gyfer Digwyddiadau Difrifol yn cynorthwyo pob aelod o staff sy’n rhan o gynllunio a chyflwyno achosion i sicrhau bod timau amlddisgyblaethol yn rhan, ac mae hefyd yn eu cynorthwyo i fonitro amserlenni a phrosesau. Mae’r pecyn cymorth yn cynnwys rhestr wirio o</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | ac yn cynnwys aseswyr allanol | Gwestiynau ac Atebion, sy'n nodi lefel yr ymchwiliad sydd ei hangen cyn y gellir cau'r achos.<br><br>Mae gweithredu hyfforddiant RCA wedi cael ei arwain gan y sefydliad. Bydd y nifer o bobl sy'n gallu cwblhau ymchwiliad RCA yn cefnogi proses fwy cadarn dan arweiniad sawl clinigydd, a bydd hyn yn ei dro yn cyflymu ymchwiliadau.<br><br>Mae rhagor o ddyddiadau wedi eu cynnig ar gyfer hyfforddiant RCA yn gynnar yn 2021, ac mae nifer o staff yn gwirfoddoli i wneud y rôl hon. Bydd hyn dan arweiniad Tîm Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae llawer o waith eto i'w wneud i fynd i'r afael â'r nifer o Ddigwyddiadau Difrifol ers Hydref 18 sydd eto i'w datrys. Mae llawer o'r rhain wrthi'n cael eu hadolygu eto, oherwydd natur annigonol ansawdd yr ymchwiliad cychwynnol. Mae COVID-19 wedi effeithio ar gyflymder y gwaith hwn, a bydd y Bwrdd Iechyd bellach yn dod o hyd i ymchwilwyr allanol i ddatrys y sefyllfa hon yn gyflym. |
| **7.20** | ***Mynd ati'n rhagweithiol i geisio dileu'r 'diwylliant o feio' er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn fodlon adrodd Digwyddiadau Difrifol a dysgu ohonynt.*** | Fel y nodwyd eisoes, mae Gwasanaethau Mamolaeth wedi gwella'r prosesau ar gyfer adrodd digwyddiad a dysgu o ddigwyddiadau, a hynny'n sylweddol.<br><br>Cafodd holiaduron staff eu cwblhau i nodi unrhyw bryderon gan staff oedd yn weddill, ac mae cynllun gweithredu yn ei le.<br><br>Mae aelodau uwch o staff yn datblygu 'canolfan gymorth' amlddisgyblaethol i sicrhau bod cymorth ar gael i staff yn amserol pan gwyd digwyddiadau. |
| **7.35** | **Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant i bob aelod o staff, a nodi diffygion o ran sgiliau a thargedu hyfforddiant ychwanegol.** | Mae gan y gwasanaeth Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant cynhwysfawr bellach sy'n disgrifio hyfforddiant statudol a gorfodol i bawb sy'n ymwneud â gofal mamolaeth. Mae cydymffurfiaeth â'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant yn cael ei hadrodd gerbron y Grŵp Gweithlu ac Addysg.<br><br>Mae'r Tîm Gwella wedi recriwtio Uwch-fydwraig a fydd yn cynnal adolygiad o bob rôl bydwreigiaeth/cymorth gofal iechyd yn y gwasanaeth, â chymorth gan adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan bob aelod o staff ar bob lefel syniad o'r sgiliau sydd eu hangen i gwblhau hyfforddiant ychwanegol yn unol â'r rôl maent yn ei gwneud. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i staff weld pa hyfforddiant sydd ei angen os ydynt am wneud rolau penodol yn y gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gynlluniau olyniaeth i rolau yn y dyfodol. |

## Atodiad 3: Taflen wybodaeth i deuluoedd (Saesneg a Chymraeg)

Taflen i deuluoedd (Saesneg)

Taflen i deuluoedd (Cymraeg)

## Atodiad 4: Taflen Gymorth i deuluoedd yn eu galar (Saesneg a Chymraeg)

[Taflen Profedigaeth (Saesneg)]

[Taflen Profedigaeth (Cymraeg)]

## Atodiad 5: Cwestiynau Cyffredin i Deuluoedd (Cymraeg)

## Cwestiynau Cyffredin i Deuluoedd (Cymraeg)

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth (IMSOP) Rhaglen Adolygu Clinigol

# Cwestiynau Cyffredin

***Mae cwestiynau gyda fi am y llythyrau rydw i wedi eu derbyn a'r wybodaeth sydd ynddyn nhw. Sut alla i gael atebion i fy nghwestiynau?***

Rydyn ni am sicrhau y gallwn ni ateb unrhyw gwestiynau sydd gyda chi, felly cysylltwch â ni i roi gwybod i ni os oes cwestiynau gyda chi, er mwyn i ni allu sicrhau bod y bobl briodol yn ymateb. Byddai cynrychiolwyr o IMSOP a'n Bwrdd Iechyd yn fwy na bodlon cwrdd â chi ar lein i drafod eich ymholiadau, os bydd hyn o gymorth. Cysylltwch ag aelod o'n Tîm Gwella Mamolaeth trwy ffonio **01685 728741 (Dydd Llun - Dydd Gwener 9am-5pm, ac eithrio gwyliau'r banc -** mae modd gadael neges lais y tu allan o oriau**)** neu e-bostio CTM_maternityimprovementprogramme@wales.nhs.uk, fel y gallwn ni roi cymorth i chi.
Hefyd, a fyddwch chi cystal â gadael **eich enw** a'ch **rhif cyswllt** a **nodi pryd** hoffech chi i ni ffonio'n ôl. Fe fyddwn yn ymdrechu i ddod yn ôl atoch o fewn pum diwrnod gwaith unwaith i ni gysylltu â chynrychiolwyr o IMSOP.

***Hoffwn i ddeall mwy am y gwaith gwella mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei ddisgrifio yn y llythyr. Mae ychydig o gwestiynau gyda fi amdano.***

Byddai'r Bwrdd Iechyd yn fwy na bodlon cynnig cyfarfod ar lein i drafod y gwelliannau rydyn ni'n eu

gwneud er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o'ch profiad chi. Cysylltwch â'n Tîm Gwella Mamolaeth trwy ffonio **01685 728741 (Dydd Llun - Dydd Gwener 9am-5pm, ac eithrio Gwyliau'r Banc),** neu e-bostiwch CTM_maternityimprovementprogramme@wales.nhs.uk i drefnu apwyntiad. Mae gwybodaeth ddwyieithog am ein taith at well gofal mamolaeth ar gael ar ein gwefan hefyd: cwmtafmorgannwg/our-maternity-improvement-journey/

***Mae cwestiynau penodol gyda fi am yr adolygiad clinigol a gafodd ei gynnal gan IMSOP.***

Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni pa gwestiynau sydd gyda chi, er mwyn i ni allu sicrhau eich bod yn cael yr atebion sydd eu hangen arnoch chi. Rydyn ni hefyd yn cydnabod eich bod o bosibl am gael y cyfle i gwrdd er mwyn trafod eich cwestiynau. Os felly, bydd cynrychiolwyr o IMSOP yn fwy na bodlon cwrdd â chi ar lein i'w trafod. Cysylltwch ag aelod o'n Tîm Gwella Mamolaeth trwy ffonio **01685 728741** (mae modd gadael neges lais y tu allan o oriau**)** neu e-bostio CTM_maternityimprovementprogramme@wales.nhs.uk , fel y gallwn ni roi cymorth i chi. Hefyd, a fyddwch chi cystal â gadael **eich enw** a'ch **rhif cyswllt** a **nodi pryd** hoffech chi i ni ffonio'n ôl. Fe fyddwn yn ymdrechu i ddod yn ôl atoch o fewn pum diwrnod gwaith.

***Os oes cyfarfod gyda fi i drafod unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gyda fi, alla i drefnu i aelod o fy nheulu neu gynrychiolydd arall fod yno gyda fi?***

Wrth gwrs. Fe allwch chi ofyn i unrhyw un fod yn bresennol a fydd yn eich barn chi o'r budd mwyaf i chi a'ch teulu. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn gallu rhoi canllawiau a chymorth i chi, a bydd yn gallu eich helpu i baratoi'r cwestiynau i'w gofyn yn y cyfarfod. Os ydych chi am drafod hyn ymhellach, gallwch chi gysylltu â'n Tîm Gwella Mamolaeth neu â Sam Perrett a Helen Hardcastle o'r Cyngor Iechyd Cymuned yn uniongyrchol trwy ffonio **01443 403590** neu e-bostio Samantha.perrett@waleschc.org.uk helen.hardcastle@waleschc.org.uk.

***Pa mor fuan fydd cyfarfod yn cael ei drefnu i fi allu trafod fy ymholiadau, a pha ddiwrnodau ac oriau sydd ar gael ar gyfer y cyfarfodydd hyn?***

Unwaith i chi gysylltu ag aelod o'n Tîm Gwella Mamolaeth, byddwn yn gwneud nodyn o'ch manylion a byddwch chi'n derbyn ymateb o fewn pum diwrnod gwaith gyda dyddiad posibl ar gyfer cyfarfod o fewn cyfnod o dair wythnos. Byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu'r cyfarfod hwn cyn gynted â phosibl, gan ein bod yn deall na fyddwch chi am oedi a gwneud y cyfnod hwn hyd yn oed yn fwy gofidus. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel arfer rhwng Dydd Llun - Dydd Gwener rhwng 9am-5pm. Os bydd hyn yn anodd i chi, rhowch wybod i ni ac fe fyddwn ni'n trefnu amser sy'n gyfleus i chi.

***Dydw i ddim eisiau cyfarfod, ond rydw i am wneud yn siŵr bod fy mhrofiad yn cael ei rannu ag eraill. Ydy hyn yn bosibl?***

Ydy, bydden ni'n croesawu hyn yn fawr. Rydyn ni hefyd yn croesawu unrhyw syniadau sydd gyda chi am sut y gallwn ni wella ein gwasanaethau. Bydd eich profiad a'ch adborth yn cael eu rhannu er mwyn llywio ein taith at ofal gwell. Gan fod pob achos yn ddienw (fyddwn ni ddim yn rhannu eich enw na'ch manylion), fe fyddwn ni'n defnyddio'r gwersi yn yr adolygiad o'ch gofal i roi adborth i'n staff. Er enghraifft, gall hyn gynnwys gofyn i staff archwilio astudiaethau achos (di-enw) yn ystod diwrnodau hyfforddiant. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddysgu o brofiadau menywod a'u teuluoedd, wrth i ni wneud y gwelliannau angenrheidiol yn ein gwasanaeth.

***Mae'r adolygiad o'r gofal a dderbyniais i a fy mabi wedi tynnu sylw at rai agweddau o'n gofal a***

***oedd yn is na'r safon ddisgwyliedig. Beth yw camau nesaf y Bwrdd Iechyd?***

Mae'n flin gyda ni fod y gofal a dderbynioch chi islaw'r safon ddisgwyliedig. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn gwneud yn siŵr fod y gwersi i'w dysgu'n rhan fawr o'r gwaith sydd ar y gweill i wella ein Gwasanaethau Mamolaeth. Os ydych chi'n dymuno trafod y camau penodol rydyn ni'n eu cymryd yn sgil y gofal a dderbynioch chi yn bersonol, bydd ein Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a'n Bydwraig Arweiniol yn fodlon gwneud hynny. Gallwch chi gysylltu â'n Tîm Gwella Mamolaeth i drafod hyn trwy ffonio **01685 728741 (Dydd Llun - Dydd Gwener 9am-5pm, ac eithrio Gwyliau'r Banc)** - bydd modd gadael neges lais) neu drwy e-bostio CTM_maternityimprovementprogramme@wales.nhs.uk.

Hefyd, a fyddwch chi cystal â gadael **eich enw** a'ch **rhif cyswllt** a **nodi pryd** hoffech chi i ni ffonio'n ôl. Fe fyddwn yn ymdrechu i ddod yn ôl atoch o fewn pum diwrnod gwaith.

Cysylltwch â ni hefyd os oes cwestiynau gyda chi am broses **Gweithio i Wella** ein Bwrdd Iechyd, ac am gamau posibl nesaf eich achos.

***Mae cwestiynau gyda fi am y llythyr ynghylch yr adolygiad clinigol, ac dydw i ddim am siarad â'r Bwrdd Iechyd.***

Rydyn ni'n deall nad ydych chi efallai am dderbyn rhagor o ohebiaeth gan ein Bwrdd Iechyd, ac rydyn ni'n llwyr barchu eich penderfyniad. Mae opsiwn amgen gyda chi, sef cysylltu â thîm IMSOP yn uniongyrchol trwy e-bostio OversightPanelMaternity@gov.wales.

***Dydw i ddim am dderbyn unrhyw lythyrau neu e-byst pellach gan IMSOP na'r Bwrdd Iechyd. Sut alla i sicrhau fy mod i ddim yn derbyn rhagor o ohebiaeth?***

Byddwn ni'n deall yn iawn os nad ydych chi am dderbyn rhagor o ohebiaeth. Os felly, rhowch wybod i ni trwy ffonio **01685 728741 (Dydd Llun - Dydd Gwener 9am - 5pm, ac eithrio Gwyliau'r Banc)** neu drwy e-bostio CTM_maternityimprovementprogramme@wales.nhs.uk. Byddwn ni wedyn yn diweddaru ein cofnodion yn unol â hynny.

***Pam mae pobl yn galw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg?***

Ar Ebrill 1 2019, cafodd sefydliad newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei ffurfio. Yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru, trosglwyddodd y cyfrifoldeb dros gomisiynu gofal iechyd yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel yr oedd gynt i sefydliad newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Dydy BIP Cwm Taf ddim yn bodoli mwyach.

| |
|---|
| *Rydyn ni wedi llunio'r Cwestiynau Cyffredin hyn rhag ofn y bydd rhagor o gwestiynau gyda chi ar ôl darllen y llythyrau rydych chi wedi eu derbyn.*<br><br>*Mae croeso i chi gysylltu â ni os bydd rhagor o gwestiynau gyda chi, a byddwn ni'n fwy na bodlon eich helpu.*<br><br>*Gallwch chi wneud hynny trwy gysylltu â'n Tîm Gwella Mamolaeth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd uchod.* |